

Cyflwyniad i newidiadau labelu alergenau

Yr hyn y mae angen i fusnesau ei wybod am y rheolau labelu alergenau newydd ar gyfer **bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS)**



Newidiadau i labeli alergenau ar fwyd

Nod y cyflwyniad hwn yw eich helpu i ddeall a yw'r gofynion labelu alergenau newydd yn effeithio ar eich busnes a beth i'w wneud nesaf i gydymffurfio â'r gyfraith.

O 1 Hydref 2021 bydd y gofynion ar gyfer labelu bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) yn newid yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y labelu newydd yn helpu i ddiogelu eich cwsmeriaid drwy ddarparu gwybodaeth am alergenau ar y deunydd pecynnu a allai achub bywydau.

Bydd yn ofynnol i unrhyw fusnes sy'n cynhyrchu bwyd PPDS ei labelu gydag enw'r bwyd a rhestr lawn o gynhwysion, gan bwysleisio'r cynhwysion alergenaid ar y rhestr.

Mae angen i fusnesau wirio a oes angen labelu PPDS ar eu cynhyrchion a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau newydd.

Beth yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol neu fwyd PPDS?

Mae bwyd PPDS yn cael ei becynnu yn yr un lle ag y mae'n cael ei gynnig neu ei werthu i ddefnyddwyr ac mae yn y deunydd pecynnu hwn cyn i'r cwsmer ei archebu neu ei ddewis.

Gall gynnwys bwyd y mae defnyddwyr yn ei ddewis eu hunain (er enghraifft, o uned arddangos), yn ogystal â chynhyrchion sy'n cael eu cadw y tu ôl i gownter a rhywfaint o fwyd sy'n cael ei werthu mewn safleoedd symudol neu dros dro.

Defnyddiwch yr adnodd gwirio (checking tool) yn nes ymlaen yn y canllawiau hyn i ddarganfod a yw'ch busnes yn gwerthu neu'n cyflenwi bwyd PPDS.

Bwyd nad yw'n PPDS

- Unrhyw fwyd nad yw mewn deunydd pecynnu neu sy'n cael ei becynnu ar ôl cael ei archebu gan y defnyddiwr. Mae'r rhain yn fathau o fwyd **heb ei becynnu ymlaen llaw** ac nid oes angen label arnynt gydag enw, cynhwysion ac alergenau wedi'u pwysleisio. Rhaid parhau i ddarparu gwybodaeth am alergenau, ond gellir gwneud hyn trwy ddulliau eraill, gan gynnwys ar lafar.
- Bwyd wedi'i becynnu gan un busnes a'i gyflenwi i fusnes arall. Mae hwn yn fwyd **wedi'i becynnu ymlaen llaw** ac mae'n rhaid iddo fod wedi'n labelu llawn yn barod, gan gynnwys enw'r bwyd a rhestr gynhwysion lawn, gyda chynhwysion alergenaid yn cael eu pwysleisio.

Gwerthu o bell

Nid yw'r gofynion labelu newydd yn berthnasol i fwyd PPDS **a werthir o bell**, fel bwyd sy'n cael ei brynu dros y ffôn/rhyngwyd.

Bydd angen i fusnesau sy'n gwerthu bwyd PPDS fel hyn sicrhau bod gwybodaeth orfodol am alergenau ar gael i'r defnyddiwr cyn iddo brynu'r cynnyrch a hefyd wrth i'r bwyd gael ei ddosbarthu.

Engbreiffittiau o fwyd PPDS

Gall bwyd PPDS gynnwys y canlynol:

- Brechdanau a chynhyrchion becws sy'n cael eu pecynnu ar y safle cyn i ddefnyddiwr eu dewis neu eu harchebu.
- Bwyd cyflym wedi'i becynnu cyn ei archebu, fel byrgyr o dan lamp boeth lle na ellir newid y bwyd heb agor y pecyn.
- Cynhyrchion sy'n cael eu pecynnu ymlaen llaw ar y safle yn barod i'w gwerthu, fel pizzas, cyw iâr rotisserie, saladau a photiau pasta.
- Byrgyrs a selsig wedi'u pecynnu ymlaen llaw gan gigydd ar y safle yn barod i'w gwerthu i'r defnyddiwr.
- Samplau o gwcis a roddir i ddefnyddwyr am ddim a gafodd eu pecynnu ar y safle.
- Bwydydd sy'n cael eu pecynnu ac yna'u gwerthu mewn man arall gan yr un gweithredwr mewn stondin farchnad neu safle symudol.

Bydd hefyd angen labelu bwyd PPDS mewn ysgolion, cartrefi gofal, ysbytai a lleoliadau tebyg eraill.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy www.food.gov.uk/cy/bwydPPDS

Beth sydd angen bod ar y label?


Mae angen i'r label ddangos **enw'r bwyd**, a'r rhestr gynhwysion gyda'r 14 alergen y mae'n ofynnol i'w datgan yn ôl y gyfraith wedi'u pwysleisio arni. Mae angen i'r rhain fod yn unol â'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i enwi'r bwyd ac i restru'r cynhwysion.

Cofiwch nodi: Nid yw'r canllawiau hyn yn sôn am y rheolau manwl yn ymwneud â chynnwys, ffurf a chyflwyniad enw, cynhwysion na gwybodaeth am alergenau. I gael rhagor o wybodaeth am hyn a'r 14 alergen, ewch i www.food.gov.uk/cy/bwydPPDS

BRECHDAN CAWS A PHICL

Caws Cheddar aeddfed, picl a menyyn mewn bara brag wedi'i sleisio

CYNHWYSION: Bara brag (blawd **gwenith** (blawd **gwenith**, calsiwm carbonad, haearn, niacin, thiamin), dŵr, darnau **gwenith** brag, bran **gwenith**, protein **gwenith**, burum, blawd **haidd** brag, halen, emylsyddion (mono a diglyseridau o asidau brasterog, esterâu asid tartarig mono a diacetyl o mono a diglyseridau asidau brasterog), gwirodydd finegr, blawd **gwenith** brag, olew had rêp, sylwedd trin blawd (asid asgorbig), braster palmwydd, blawd **gwenith**, olew palmwydd, startsh **gwenith**), caws Cheddar aeddfed (**Ilaeth**), picl (moron, siwgr, rwden, winwns, finegr **haidd** brag, dŵr, gwirodydd finegr, afal stwnsh, dêts, halen, starts indrawn a addaswyd, blawd reis, lliw (**syllfit** caramel amonia), powdwr winwns, sudd lemon crynodedig, sbeisys, rhin sbeis a pherlysiâu), menyyn (**Ilaeth**).



Pa fwyd fydd angen labelu PPDS?

Bydd angen y labelu newydd ar fwyd os yw'n bodloni pob un o'r tri maen prawf:

1. A yw'r bwyd yn cael ei gyflwyno i'r defnyddiwr mewn deunydd pecynnu*?

Nac ydy

Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw

Ydy

2. A yw'n cael ei becynnu cyn i'r defnyddiwr ei ddewis neu ei archebu?

Nac ydy

Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw

Ydy

3. A yw'n cael ei becynnu yn yr un lle** ac y mae'n cael ei werthu?

Nac ydy

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw

Ydy

Os mai 'Ydy' yw'r ateb i'r tri chwestiwn, bydd angen labelu PPDS ar fwyd.

Gweler y dudalen nesaf am Nodiadau Pwysig ar y diffiniad o becynnu a lle.

Nodiadau pwysig

Nid yw'r newidiadau yn effeithio ar fwyd a werthir o bell. Gweler yr adran **Beth yw bwyd PPDS?** i gael rhagor o wybodaeth.

*Er mwyn i fwyd gael ei ystyried yn fwyd 'wedi'i becynnu' rhaid iddo:

- un ai fod wedi'i amgáu'n rhannol neu'n llwyr yn y deunydd pecynnu;
- ni ellir newid y bwyd heb agor neu newid y deunydd pecynnu mewn rhyw ffordd;
- bod yn barod i'w werthu i'r defnyddiwr.

** Mae bwyd sydd wedi'i becynnu yn yr un lle yn cynnwys:

- bwyd wedi'i becynnu gan yr un busnes bwyd a'i werthu mewn safle dros dro neu symudol, fel tryc bwyd neu stondin farchnad.
- bwyd sy'n cael ei becynnu a'i gynnig mewn gwahanol unedau gan yr un busnes o fewn un adeilad, fel maes awyr neu ganolfan siopa.

Camau nesaf

Os yw'ch busnes yn gwerthu neu'n cyflenwi bwyd PPDS mae angen i chi weithredu cyn 1 Hydref 2021 i gydymffurfio â'r gyfraith.

Mae gan wefan yr ASB wybodaeth, canllawiau ac adnoddau i helpu'ch busnes i baratoi ar gyfer y newidiadau labelu newydd. **Ewch i wefan yr ASB i ddysgu rhagor: www.food.gov.uk/cy/bwydPPDS**

Nod y canllawiau hyn yw helpu busnesau i wirio a ydynt yn gwerthu neu'n cyflenwi bwyd PPDS a rhoi cyflwyniad i'r gofynion labelu newydd. Nid yw'n cynnwys gofynion labelu eraill y mae'n rhaid i fusnesau gydymffurfio â nhw. Rhaid i fusnesau bwyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.